

CYLCHGRAWN AR GYFER FFERMIO A CHOEDWIGAETH YNG NGHYMRU

cyswllt FFERMIO



FARMING
connect
cyswllt
FFERMIO

08456 000 813

**Defnyddio adnoddau
sydd eisoes yn bodoli**
Profiad cyrchfan
Fferm Ffrith

Mentora
Sut mae'n gallu arbed
amser ac arian i chi



RHIFYN 41 - Medi/Hydrif 2022 | llyw.cymru/cyswlltffermio

Yn safle arddangos Cefngwilgy Fawr, crëwyd prosiect i wella ansawdd porthiant cartref trwy gynnwys meillion gwyn a choch yn y tir glas sy'n cael ei bori a'i gynaeafu.

Cafodd cyfanswm o 11 erw eu haredig a'u hailhadu ym Mai 2020. Mewn cae chwe erw, plannwyd cymysgedd pori tymor hir. Mewn un erw o'r cae, nid oedd y cymysgedd yn cynnwys unrhyw feillion; mewn 2.5 erw, plannwyd meillion gwyn ar gyfradd o 1kg/erw; ac mewn 2.5 erw arall, plannwyd meillion gwyn ar gyfradd o 2kg/erw.

Cafodd cae pum erw ei ailhadu hefyd gan ddefnyddio cymysgedd glaswellt tymor canolig. Plannwyd 3kg/erw o feillion coch ym mhedair o erwau'r cae, ac ni phlannwyd meillion mewn un erw, at ddibenion cymharu.

Yn sgil gwanwyn sych iawn yn 2020, sefydlodd y cnwd yn wael iawn, ac roedd y borfa newydd yn glytiog ac yn llawn chwyn. Nid oedd lefelau'r meillion mor uchel â'r disgwyl (llai na 10% o'r borfa), felly cafodd y gwyndonnydd eu tros-hau â meillion (drilio uniongyrchol) ar ddiwedd Mehefin 2021, i geisio rhoi hwb i gyfanswm y meillion.

Cafodd y caeau a ailhadwyd eu monitro drwy gydol Awst, Medi a Hydref 2021 i asesu'r deunydd sych a gynhyrchid a chyfanswm y meillion.

Tabl 1: Cyfraddau tyfiant glaswellt dyddiol (kgDM/ha/dydd) cymedrig a chyfanswm y cynnyrch dros 90 diwrnod

	Cymharydd (porfa barhaol, dim meillion)	Gwyndwn meillion coch	Gwyndwn meillion gwyn
Awst	34	67	61
Medi	20	30	41
Hydref	12	28	26
Cyfanswm DM/ha (90 diwrnod)	2026	3845	3927

Mae'r 1800kgDM/ha a dyfwyd yn ystod y tri mis ar y caeau a ailheuwyd yn gyfystyr â 1000 o ddiwrnodau pori mamogiaid ychwanegol fesul hectar. Dros yr 11 erw (4.4ha) a ailhadwyd, mae hynny'n ddigon o laswellt i gynnal 49 mamog ychwanegol.

Mae gwerth presennol glaswellt (egni a phrotein) dros £250tDM, felly mae hynny'n golygu bod tua 70% o'r costau ail-hau wedi cael eu hadfer gan y glaswellt ychwanegol a gynhyrchwyd yn ystod blwyddyn sefydlu'r cnwd.

Wrth ddadansoddi'r borfa, canfuwyd bod 35% o'u deunydd sych yn feillion coch. Fodd bynnag, roedd y meillion coch yn glytiog iawn ar draws y cae. Roedd cyfanswm y meillion gwyn yn y gwyndonnydd yn llawer is (tua 6% o'r deunydd sych yn unig), ac nid oedd gwahaniaeth o ran cyfanswm y meillion yn y borfa yn deillio o hau 1kg neu 2kg/erw.

Ni fuasai cyfanswm y meillion gwyn (6% o'r borfa) yn effeithio'n sylweddol ar werth porthiant, nac yn cyfrannu'n sylweddol at sefydlogi nitrogen (N).

Ar ôl tros-hau ym Mehefin 2021, fe wnaeth lefelau'r meillion gwyn wella rhyw fymryn – ond mae'r cae yn dal yn glytiog iawn. Mewn rhai rhannau, mae cyfanswm y meillion yn y borfa wedi cynyddu i 30%, ond mae'n dal yn is na 5% mewn rhan sylweddol o'r cae.

Rhaid i borfa gynnwys 20% neu fwy o feillion cyn y gall meillion ddylanwadu ar ansawdd porthiant. Ar y lefel hon, gellir gweld cynnydd o 25% yng nghyfraddau twf ŵyn a chynnydd o 10% yng nghyfraddau twf gwartheg, o gymharu â phorfa sy'n cynnwys glaswellt yn unig, oherwydd bod ansawdd porfeydd meillion yn uwch ac yn fwy treuliadwy, sy'n arwain at gymeriant uwch. Pan fydd porfa yn cynnwys o leiaf 30% o feillion, mae ymchwil y Sefydliad Bwyd-Amaeth a Biowyddorau wedi dangos y gall meillion sefydlogi hyd at oddeutu 150kg o nitrogen yr hectar (sy'n cyfateb i bron iawn 4.5cwt o 27%N/erw) pan fydd yr amgylchiadau tyfu yn ddelfrydol. Gall fod yn anodd cyflawni hyn ym mhob fferm, ond gallai sicrhau arbedion sylweddol o ran costau a buddion allweddol i'r amgylchedd os cyflawnir hynny.



DEG AWGRYM DEFNYDDIOL

1. Mae amseru yn bwysig – os ydych yn tros-hau yn yr hydref, ni ddylid gwneud hynny ar ôl canol mis Medi.
2. Os oes gwellt neu faeswellt gwyn wedi casglu yn y borfa, dylid ei glirio flwyddyn cyn tros-hadu.
3. Os caiff yr had eu drilio, dylid gwneud hynny pan fydd lleithder yn y pridd a rhagolygon am law.
4. Dewiswch ddril priodol i wneud y gwaith, oherwydd gall dril trwm hau had yn rhy ddwfn. Ni ddylid drilio meillion yn ddyfnach nag 1cm.
5. Gellir hau meillion gwyn ar gyfradd o 1-2kg/erw, a 3kg/erw yn achos meillion coch.
6. Ni ddylech hau mathau o feillion sydd â dail mawr mewn unrhyw system ac eithrio systemau godro, oherwydd bod eu cyfradd goroesi yn salach na meillion â dail canolig eu maint.

7. Dylid rheoli'r meillion yn ofalus iawn yn ystod yr wyth wythnos ar ôl hau: porwch am ddiwrnod, ond dim ond digon i bori'r fodfedd a hanner uchaf. Bythefnos yn ddiweddarach, porwch mewn modd tebyg unwaith eto, i atal y glaswellt rhag cysgodi'r planhigion meillion ifanc yn ormodol. Wedi hynny, gellir pori ychydig yn drymach.
8. Peidiwch â stocio'n drwm dros y gaeaf, neu fe wnaiff y meillion ddiflannu. Ni wnaiff meillion coch barhau os cânt eu pori'n ddiwedd, yn sgil cyfuniad o glirio gormod o'r dail a charnau yn sathru ar fonion planhigion a'u difrodi.
9. Mae angen i pH priddoedd fod yn 6 o leiaf i alluogi meillion i sefydlogi nitrogen.
10. Mae angen i lefelau P (ffosffad) a K (potash) fod yn briodol, hefyd (dylai mynegai P pridd fod yn 2 uchel a dylai mynegai K pridd fod yn 2+).

Safle Ffocws: Llwynmendy, Llandeilo, Sir Gâr

Swyddog Technegol: Gwenan Evans

Teitl y Prosiect: Y cydberthyniad rhwng pryfed genwair ac iechyd pridd, yn ogystal â gwerthuso bokashi (eplesu deunydd organig)

Amcanion y Prosiect:

- Pennu lefel iechyd gyffredinol pob cae
- Canfod ble mae unrhyw gydberthyniad rhwng niferoedd y pryfed genwair; tyfiant y glaswellt a'r nitrogen a chwalir
- Gwerthuso buddion bokashi

Cefndir:

Mae iechyd y pridd yn hollbwysig ar gyfer ffermio cynaliadwy. Mae ymchwili wedi dangos y gall baw ffres pryfed genwair gynnwys hyd at bum gwaith yn fwy o nitrogen hygyrch, saith gwaith yn fwy o ffosfforws hygyrch, ac 11 gwaith yn fwy o botash hygyrch na'r uwchbriddoedd o'i gwmpas. Dan amgylchiadau delfrydol, gall poblogaeth iach o bryfed genwair brosesu tua 12 tunnell fetrig o bridd a deunydd organig mewn blwyddyn. Mae gan bryfed genwair rôl allweddol o ran cymysgu ac agregu sbwriel dail â phridd, a gwella strwythur y pridd a galluogi deunydd organig i ddadelfennu'n microbaidd yn well.



Mae gweithgarwch pryfed genwair iach yn cyflawni'r canlynol:

- Gwella argaeledd maetholion
- Gwella draeniad pridd
- Gwella strwythur pridd
- Gwella cynhyrchiant

Cyflwyniad:

Nod cyffredinol y prosiect fydd pennu lefel iechyd y pridd yng nghyd-destun nifer y pryfed genwair a chyfanswm deunydd organig pridd.

Yn ystod y prosiect hwn, byddwn yn asesu iechyd pridd holl gaeau pori Llwynmendy gan ddefnyddio Matrics Iechyd Pridd, y gellir ei weld ar y dde:

Soil Score Card			
Farm			
Land Use			
Field			
Soil Type	Sandy Course Silty	Coarse Loamy Fine Silty	Fine Loamy Clayey
Date			
Soil Moisture	Dry Very Moist	Slightly Moist Wet	Moist
Weather	Dry Cold	Wet Warm	
Indicators	Score	Weighting	Ranking
Texture	0	3	0
Structure	0	3	0
Porosity	0	3	0
Mottles	0	2	0
Colour	0	2	0
Worms	0	3	0
Smell	0	2	0
Pot Root Depth	0	3	0
Surface Ponding	0	3	0
Surface Relief	0	1	0
		Total	0
Poor	<20		
Moderate	20-35		
Good	>35		
Maximum	50		

Bydd ail ran y prosiect yn ymwneud ag eplesu tail o'r sied gwartheg sych. Gelwir y broses yn 'bokashi' ('deunydd organig wedi'i eplesu' yn Siapaneg), sef proses sy'n debyg i silweirio cnydau porthiant. Mae compostio traddodiadol yn broses aerobig sy'n cynhyrchu gwres, sy'n golygu y caiff egni a maetholion gwerthfawr eu colli. Yn ychwanegol, mae compostio yn allyrru cyfanswm sylweddol o garbon. Wrth gompostio deunydd, collir 62% o gyfanswm ei fas yn sgil anweddu, a 58% o'i ddeunydd organig (y mae 50% ohono yn garbon). Mae hynny'n golygu y byddai 10t o ddeunydd organig yn colli 3t o garbon. Fodd bynnag, yn ystod proses bokashi, collir 3% yn unig o'r carbon.

Dull:

Os rhoddir y micro-organebau gweithredol ar y tail cyn clirio'r sied, gall yr hydoddiant gymysgu'n drylwyr â'r tail wrth ei grafu'n domen. Yna, caiff y domen ei gorchuddio a'i silweirio'n dynn gan ddefnyddio llenni plastig a theiars (tebyg i greu claddfa silwair). Bydd y broses eplesu yn para hyd at wyth wythnos, pan fydd Rheinalt Harris, sy'n ffermio yn Llwynmendy, yn chwalu'r gwrtaith ar lain a ddewisir ar hap ar y cae pori. Cymerir samplau o'r tail cyn ei grafu allan o'r cwt ac wyth wythnos ar ôl ei drin, a chymerir samplau o domen o dail heb ei drin i gymharu'r maetholion.




Asesu iechyd pridd a chofnodi sgôr pridd



Rheinalt Harris o Llwynmendy yn chwalu micro-organebau gweithredol

Cynhaliwyd digwyddiad yn Llwynmendy ar 9 Medi 2022 i ddangos y canfyddiadau a thrafod y pwnc sydd dan sylw.

Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle ffocws Llwynmendy, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermioeinfffermydd



Cyllidebu porthiant y gaeaf – Cyswllt Ffermio

Bydd rheolaeth yn ystod y gaeaf yn cyfrannu'n helaeth at lwyddiant system sy'n seiliedig ar laswellt i gynyddu elw a chynhyrchiant y busnes ffermio, oherwydd bydd cyfnod y gaeaf yn paratoi'r fferm at y tymor pori nesaf.

Y nod dros y gaeaf yw sicrhau y caiff pob cae ar y fferm orffwys (dim stoc yn pori arno) am 100-150 diwrnod, a sicrhau bod gan y fferm orchudd porfa terfynol o 1800-2200 kgDM/ha ar gyfartaledd (po fwyaf yw'r gyfradd stocio, mwyaf yn y byd yw'r gorchudd porfa y mae ei angen ar fferm). Mae hyn yn caniatáu i'r gorchuddion porfa gael eu cynnal dros y gaeaf a'u pori yn y gwanwyn, gan leihau'r mewnbynnau gofynnol a chynyddu'r tymor pori.

I allu sicrhau y caiff da byw eu troi allan yn gynnar, dylai caeau y bydd ffermwyr yn dymuno eu pori ym mis Mawrth gael eu pori am y tro olaf ym

mis Hydref, gan sicrhau bod amser i gynyddu'r gorchuddion porfa yn yr hydref fel y gellir eu cynnal trwy'r gaeaf a'u defnyddio i'w pori am y tro cyntaf ar adeg troi allan ym mis Mawrth.

Tyfir 40% o ddeunydd sych porfa yn y gwanwyn. Bydd cynnal y borfa dros y gaeaf a'i phori yn gynnar yn y gwanwyn yn hybu twf cynnar glaswellt, ac yn caniatáu rownd 'ychwanegol' o bori yn y gwanwyn. Bydd hyn yn golygu na fydd angen dwysfwydydd, oherwydd bydd % y ME, % y protein a % y DM yn fwy nag anghenion da byw yn ystod unrhyw gam o'r broses gynhyrchu yn y cyfnod hwnnw.

Mae'n hanfodol felly bod ffermwyr yn sicrhau bod ganddynt ddigon o borthiant ar y fferm i gynnal da byw dros y gaeaf i alluogi'r llwyfan pori i gael gorffwys.

Camau i greu cyllideb porthiant yn ystod y gaeaf:

1. Cyfrifo'r galw am borthiant ar gyfer da byw yn ystod y gaeaf

Ar gyfer pob math o stoc ar y fferm, cwblhewch y camau dilynol i gyfrifo cyfanswm y porthiant sydd ei angen yn ddyddiol dros y gaeaf. Mae'r enghraifft isod yn cyfeirio at grŵp o famogiaid hysb:

Enw'r grŵp	Nifer cyfartalog trwy gydol y gaeaf	Pwysau cyfartalog trwy gydol y gaeaf (kg)	Galw fel % o bwysau'r corff (BW)	Galw unigol (kgDM/y pen/y dydd)	Cyfanswm y galw fesul diwrnod (kgDM/diwrnod)
Enghraifft: mamogiaid hysb	400	60	2%	1.2	480
A	B	C	D	E = C x D%	F = E x B
Dylid ailadrodd hyn ar gyfer pob grŵp ar y fferm					
Cyfanswm galw pob grŵp ar y fferm (kgDM)					G = Cyfanswm F ar gyfer pob grŵp
Nifer y diwrnodau yn ystod y gaeaf (100-150 diwrnod)					H
Cyfanswm y porthiant sydd ei angen dros y gaeaf (tDM)					I = (G x H) ÷ 1000

2. Cyfrifo cyfanswm y porthiant gaeaf sydd ar gael ar y fferm

Ar ôl cyfrifo cyfanswm galw'r da byw dros y gaeaf, gellir cymharu hynny â'r cyflenwadau o borthiant. Pan fyddwch yn cynllunio at y gaeaf, cofiwch sicrhau bod gennych chi:

- **Y cynllun cywir ar gyfer eich stoc** - Beth mae arnynt ei angen o gymharu â beth mae angen i chi ei dyfu (targedau perfformiad, sgôr cyflwr corfforol).
- **Y cynllun cywir ar gyfer eich tir a'ch llafur** - dewis caeau, ansawdd ac argaeledd dŵr, dewis y cnydau priodol.
- **Y cynllun cywir i sicrhau elw** - ansawdd, cnwd, addas ar gyfer y math o stoc.

Isod, gwelir cyfrifiadau ar gyfer y ddwy brif ffynhonnell o borthiant. Ailadroddwch yr ymarfer hwn ar gyfer holl borthiant y gaeaf a chyfrifwch gyfanswm y deunydd sych (mewn tunelli metrig):

Byrnau silwair/gwair

- Cyfrifwch nifer y byrnau
- Dadansoddwch ansawdd y silwair i ddeall pa fath o stoc yw'r mwyaf priodol i'w borthi iddo ac i ganfod % y deunydd sych

Cyfrifwch gyfanswm y deunydd sych sydd ar gael mewn tunelli metrig (tDM) = Pwysau cyfartalog byrnau (kg) x deunydd sych (%) x Nifer y byrnau x Lefel defnydd o 90%

Cnydau porthi

- Mesurwch yr arwynebedd a rhagfynegwch gyfanswm deunydd sych y cnwd mewn tunelli (aseswch gyfanswm y cnwd yn agosach at adeg ei bori)
- Rhagfynegwch % deunydd sych y cnwd (12-15% o ddeunydd sych fel arfer)

Cyfrifwch gyfanswm y deunydd sych sydd ar gael mewn tunelli (tDM) = cnwd disgwylidiedig

(tDM/ha) x deunydd sych (%) x arwynebedd cnydau porthi (ha) x Lefel defnydd o 85%

3. Cyllidebu'r cyflenwad o borthiant o gymharu â'r galw

Ar ôl i chi bennu cyfanswm y porthiant sydd ei angen (tDM) a chyfanswm y porthiant sydd ar gael (tDM), cymharwch y gwahaniaeth yn y cyfansymiau i bennu a fydd gennych chi ddigon o borthiant at y gaeaf. Gofalwch fod ansawdd y porthiant yn addas i'r grŵp priodol o dda byw fel y gellir cyflawni targedau perfformiad. Os oes gwahaniaeth mawr, ystyriwch y costau cysylltiedig a'r angen i gynhyrchu porthiant ychwanegol, os bydd yr amgylchiadau'n caniatáu yn hwyr yn y tymor.

Llenwch y bwlch porthiant

Os oes diffyg porthiant, ystyriwch yr opsiynau dilynol (**PEIDIWCH Â PHORI'R BLOC PORTHI**):

- Lleihau nifer y stoc ifanc – gwerthwch anifeiliaid stôr cryf i ddechrau
- Ystyried y cyfle i blannu cnwd porthiant neu gnwd gorchudd cyn y gaeaf
- Symud da byw i fferm arall sydd â phorthiant at y gaeaf (porfa neu gnydau porthi)
- Prynu porthiant (gwair/silwair) yn gynnar cyn i brisiau godi yn y gaeaf
- Paratoi i borthi cyfanswm uwch o ddwysfwydydd



I gael rhagor o wybodaeth am reoli porfa, sganiwch y cod QR isod, neu dilynwch nodiadau rheoli Prosiect Porfa Cymru:

busnescymru.llyw.cymru/cyswlltffermio/prosiect-porfa-cymru

Gallai arbrawf bio-ologs arloesi'r ffordd ar gyfer cyfleoedd i arallgyfeirio ar ffermydd

Mae bio-ologs sy'n cael ei gynhyrchu o laswellt molinia ar fferm fynydd yng Nghymru wedi sicrhau cynnydd o fwy na 300% yng nghyfanswm cyfartalog cnwd rhuddygl, fel rhan o arbrawf a allai arloesi'r ffordd i gynnig cyfleoedd i ffermwyr arallgyfeirio a phosibiliadau sylweddol o ran storio carbon.

Mae bio-ologs yn fath o siarcol a gynhyrchir yn ystod proses pyrolysis. Profwyd y gall fod yn ddull defnyddiol o atafaelu mwy o garbon, oherwydd mae'n gwrthsefyll diraddio, a gall gloi carbon mewn pridd am filoedd o flynyddoedd.

Mae prosiect a gefnogwyd gan EIP Cymru, sy'n cynnwys garddwriaethwyr ledled Cymru a chynhyrchydd bio-ologs, yn amlygu potensial y cynnyrch hwn i dyfu rhai cnwdau masnachol, hefyd.

Mae nifer o lysiau yn cael eu tyfu gan ddefnyddio bio-ologs, bio-ologs gyda gwlan, a thail a chompost arferol – sydd oll wedi'u hychwanegu at y pridd – ac mae'r canlyniadau'n cael eu cymharu.

Bydd canfyddiadau diweddaraf yr astudiaeth dwy flynedd yn cael eu cyhoeddi yn ddiweddarach eleni, ond hyd yn hyn, maent yn amlygu canlyniadau calonogol yn achos un cnwd yn benodol – rhuddygl.

Defnyddiodd yr arbrawf hwnnw fio-ologs molinia a gynhyrchir gan Tony Davies ar ei fferm ger Rhaeadr Gwy. Bydd Mr Davies yn clirio glaswellt molinia o'i dir – mesur sy'n gwella bioamrywiaeth, yn lleihau risg tanau ac yn gwella

cynefinoedd ar gyfer y cwtiad aur – a bydd yn ei ddefnyddio i gynhyrchu bio-ologs i'w werthu i arddwyr a garddwriaethwyr.

Fe wnaeth yr arbrofion ymchwilio i ganfod sut oedd cnwdau rhuddygl, brenhinllys, courgettes, indrawn a bresych yn ymateb i gynnwys bio-ologs. Roedd un o'r arbrofion cyntaf yn cynnwys cnwd o ruddygl Mr Davies ei hun, a blannwyd ym mis Mai ac a gynaeafwyd ddeufis yn union yn ddiweddarach. Cafwyd canlyniadau arwyddocaol o safbwynt ystadegol ($p < 0.001$) yn sgil yr arbrawf, ac roedd y cynnydd yng nghyfanswm cnwd y planhigion yn fwy na 300% o gymharu â'r cnwd cymharu.



Tony Davies, sy'n cynhyrchu'r bio-ologs a ddefnyddir yn y prosiect

Mae Oliver Kynaston, ymgynghorydd sydd ag arbenigedd yn y maes hwn, yn goruchwyllo'r arbrawf ac yn dadansoddi ei ganlyniadau. Dywed mai un rheswm posibl dros y cnwd mwy yw gallu bio-ologs i gynyddu deunydd organig

Bio-ologs wedi'i ychwanegu at un o leiniau'r arbrawf

pridd a gwella ei allu i ddal dŵr yn ystod cyfnod o dywydd sych, pan oedd posibilrwydd y byddai planhigion dan straen oherwydd diffyg dŵr. Rheswm arall yw'r lefelau isel iawn o botasiwm (P) yn y pridd y tyfwyd y rhuddygl ynddo – 0.5kg/ha, sy'n llawer is na chyfartaledd y DU, sef 4-7kg/ha.

"Gwyddys bod bio-ologs yn ffynhonnell P, ac efallai bod hynny wedi effeithio'n gadarnhaol ar gyfanswm y cnwd," meddai Mr Kynaston.

Gwyddys hefyd bod bio-ologs yn achosi effaith calchu, sy'n llesol i gnydau sy'n tyfu mewn pridd asidig iawn.

Cafwyd canlyniadau cadarnhaol hefyd mewn arbrawf tyfu indrawn, yn ymwneud â chnwd organig a dyfwyd gan Mike Warrick yn Llandrindod. Tyfwyd yr indrawn mewn pridd lôm gwaddodlyd ffrwythlon â lefel uchel o ddeunydd organig a wnaeth gronni yn sgil chwalu compost cartref yn rheolaidd dros y blynyddoedd. Roedd cynnydd o 66% ym mhwyau'r planhigion indrawn (cyfanswm y biomas uwchlaw'r ddaear) yn y llain bio-ologs. Fodd bynnag, canfuwyd bod gan hyn gydberthyniad gwael â phwyau'r cnwd (tywysennau), gan awgrymu nad oedd planhigyn mwy yn golygu cnwd trymach o reidrwydd.

Cafwyd canlyniadau cymysg o safleoedd y ddau dyfwr arall (lle tyfir brenhinllys a bresych dan amodau'r arbrawf), ond cafwyd rhywfaint o ganfyddiadau diddorol yn eu sgil, a gweithredwyd

y rheini yn arbrofion yr ail flwyddyn. Yn achos brenhinllys, er enghraifft, mae rhagor o ymchwil yn digwydd ynghylch y crynodiad delfrydol o fio-ologs, oherwydd fe wnaeth y crynodiad mwyaf gynhyrchu canlyniadau gwell na'r lleiaf. Yn yr arbrawf â bresych, fe wnaeth compost bio-ologs a chwalwyd ar gyfradd o 30t/ha sicrhau cynnydd o 24% yn y cnwd ar draws y llain cymharu. Fodd bynnag, roedd effaith bio-ologs ei hun ar bwysau'r cnwd yn isel.

Fodd bynnag, yn ôl Mr Kynaston, efallai mai'r rheswm am hyn oedd y pridd cynhyrchol iawn yn y ddau safle, a oedd â lefelau uchel o ddeunydd organig, argaeledd maetholion uchel, a pH gweddol niwtral.

"Mae astudiaethau yn awgrymu y bydd defnyddio bio-ologs yn dylanwadu fwyaf pan gaiff ei gynnwys mewn priddoedd sydd wedi'u diraddio neu ag ychydig o ddeunydd organig," eglurodd.

Yn y cyfamser, fel cynhyrchydd bio-ologs, cred Mr Davies y gall y polisiâu a'r cymhellion iawn olygu y caiff bio-ologs ei ddefnyddio'n ehangach mewn amaethyddiaeth, yn bennaf fel dull o atafaelu mwy o garbon, a gallai hynny gynnig cyfleoedd i ffermwyr yng Nghymru.

"Mae gan amaethyddiaeth yng Nghymru amrywiaeth o gynhyrchion gwastraff y gellid eu defnyddio i'w prosesu i greu bio-ologs," meddai.

I gael rhagor o wybodaeth, trowch at dudalen y prosiect ar wefan Cyswllt Ffermio.



Canolfan Gyfnewid Gwybodaeth Cyswllt Ffermio

Pam mae gweithrediad a gwynwch ecosystemau yn gysyniadau pwysig i amaethyddiaeth?

Dr William Stiles: Y Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth, IBERS, Prifysgol Aberystwyth

Yn ddiweddar, mae'r newyddion wedi cynnwys llawer o adroddiadau ynghylch sut bydd difrod i ecosystemau a cholli amrywiaeth rhywogaethau yn effeithio ar bob un ohonom ni, ac yn enwedig ar ein gallu i gynhyrchu bwyd. Mae Dr William Stiles o Ganolfan Gyfnewid Gwybodaeth yn IBERS, Prifysgol Aberystwyth, yn egluro pam mae gallu cynhyrchu bwyd yn llwyddiannus yn dibynnu ar ecosystem sy'n gweithio.

Yn hanesyddol, mae ecosystem amaethyddol yn amrywiol, oherwydd y mathau amrywiol o amgylcheddau a chynefinoedd sy'n bodoli ar fferm draddodiadol. Fodd bynnag, mae dulliau dwys amaethu modern, a symleiddio tirweddau amaethyddol yn sgil hynny, wedi effeithio'n andwyol ar fioamrywiaeth tir amaethyddol. Fel cymdeithas, rydym yn dibynnu ar yr ecosystem amaethyddol ar gyfer cynhyrchu bwyd angenrheidiol. Fodd bynnag, gall yr arferion cynhyrchu bwyd presennol effeithio'n niweidiol ar iechyd a gweithgarwch yr ecosystem amaethyddol, gan gyfyngu ar wytnwch posibl ecosystem.

Mae'r ffaith hon yn cyflwyno problem gynyddol ddybryd o ran hyfywedd amgylcheddau tir amaethyddol yn y dyfodol, oherwydd bydd gan ecosystemau sydd heb lawer o fioamrywiaeth wytnwch posibl isel, gan olygu eu bod yn fwy agored i effeithiau newidiadau amgylcheddol. Yn y cyd-destun hwn, lle bydd newidiadau amgylcheddol yn y dyfodol yn effeithio ar weithgarwch yr ecosystemau hyn, gallai hyn effeithio'n uniongyrchol ar ein potensial i gynhyrchu bwyd, â goblygiadau sylweddol o ran diogeldd bwyd yn y DU yn y dyfodol.

Er mwyn cynnal lefelau cynhyrchu bwyd dan amodau hinsoddol sy'n gynyddol amrywiol, bydd cynyddu gwynwch ecosystemau yn hanfodol i sicrhau y gall systemau sydd ag amrywiaeth gweithredol digonol liniaru effeithiau tarfu gan ffactorau megis tywydd eithafol, neu frigiadau o achosion o blâu neu bathogenau.

Un dull allweddol i sicrhau bod ecosystemau yn wydn ac yn gallu cynnal eu gweithgarwch yw gwella bioamrywiaeth systemau sydd wedi'u symleiddio, neu ble mae strategaethau cynyddio ungnwd wedi cael eu hyrwyddo. O safbwynt ecolegol, bydd amgylcheddau sy'n fwy bioamrywiol yn fwy gwydn, ac felly, byddant yn gallu lliniaru dylanwad newidiadau amgylcheddol, gan ganiatáu i'r potensial ar gyfer cynhyrchu nwyddau amaethyddol barhau.

Mae buddion bywyd gwyllt a bioamrywiaeth ar dir amaethyddol yn cael eu cydnabod yn gynyddol, ac yn ystod blynyddoedd diweddarach, mae strategaethau wedi cael eu gweithredu i wella lefelau bioamrywiaeth tir amaethyddol. Yn achos Cymru, bydd yn rhaid i'r prif ddull o wneud hyn ganolbwyntio ar wella cyfoeth rhywogaethau tir glas, oherwydd mai dyma'r amgylchedd amaethyddol mwyaf.

Bydd gweithredu yn y modd hwn yn gwella bioamrywiaeth systemau tir glas yn uniongyrchol, ac o ganlyniad i hynny, bydd bioamrywiaeth systemau cysylltiedig (megis y pridd) yn gwella hefyd. Bydd ymyraethau rheoli o'r fath hefyd yn gwella'r potensial i gynhyrchu yn fwy cyffredinol, trwy leihau'r angen am fewnbynnau megis gwrtaith neu gyfryngau rheoli plâu, a thrwy wella ffrwythlondeb y pridd a'r potensial i sicrhau tyfiant planhigion. Felly, mae gwella bioamrywiaeth a'r potensial am wytnwch ecosystemau a'r gwasanaethau a ddarperir gan ecosystemau yn strategaeth hanfodol, a bydd hynny hefyd yn fuddiol i ffermwyr trwy wella potensial ffermydd i gynhyrchu.



1. Lefelau uwch o ddeunydd organig pridd, o dan borfeydd mwy amrywiol
2. Mae cymunedau dadelfennu pridd llai amrywiol mewn glaswelltiroedd ungnwd yn golygu y bydd llai o faetholion yn cael eu cylchedu a llai ohonynt ar gael
3. Organebau buddiol mwy amrywiol, megis ffyngau mycorhisol, mewn glaswelltiroedd amrywiol
4. Cyfraddau uwch o gynhyrchu biomas mewn glaswelltiroedd amrywiol
5. Mae llai o adnoddau ar gael ar gyfer ffawna cysylltiedig, megis pail a neithdar, yn golygu llai o fioamrywiaeth yn gyffredinol mewn glaswelltiroedd ungnwd

CYNLLUN FFERMIO CYNALIADWY

– pwysigrwydd ystyried adnodd sydd gennych ar y fferm



Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y Cynllun Ffermio Cynaliadwy, sydd i fod i ddechrau yn 2025. Un o weithredoedd cyffredinol y cynllun yw cael o leiaf 10% o orchudd coetir ar ffermydd.

Bydd y cam gweithredu hwn yn ei gwneud yn ofynnol i ffermwyr nodi coetir a gorchudd coed presennol ar ffermydd, tra'n edrych ar gyfleoedd i blannu coed a all fod o fudd i'r busnes fferm. Gyda'r heriau sydd o'n blaenau i'r diwydiant ffermio, a'r pwyslais ar wella'r amgylchedd, mae'n bwysig ystyried y rôl mae coed a gwrychoedd yn ei chwarae, ynghyd â'r manteision a ddaw yn eu sgîl, o ran perfformiad amgylcheddol a chynhyrchu bwyd.

Mae ymyriadau ymarferol o fewn amaethgoedwigaeth, integreiddio coed â da byw, a rheoli coetir presennol trwy goedwigaeth parhaus, sy'n gydnaws iawn â systemau cynhyrchu bwyd a fydd yn gweithio i'r fferm ac yn darparu elw. Drwy arferion rheoli tir cynaliadwy, bydd rôl coed a'r gwahanol fanteision a ddaw i fusnesau ffermio hefyd yn cyfrannu tuag at dargedau Llywodraeth Cymru, o ran newid hinsawdd, mwy o fioamrywiaeth mewn amgylcheddau ffermio a'r capasiti i atgafaelu carbon.

Mae adnabod yn union pa adnoddau sy'n goetir, gwrychoedd a chynefinoedd sydd gennym ar ein ffermydd yn hanfodol wrth symud ymlaen. Felly, mae asesu'r fferm yn ei chyfarwydd a chynllunio i reoli a phlannu i gwrdd ag amcanion y busnes yn hanfodol i sicrhau buddion i'r fferm ac i'r amgylchedd ehangach. Mae tystiolaeth eang yn dangos bod rheoli coetir fferm fel ased gweithredol ynghyd a chynyddu gorchudd coetir ar y fferm yn gadarnhaol iawn i'r busnes a gallai agor llwybrau ar gyfer cyfleoedd arallgyfeirio.

Mae adfer/plannu gwrychoedd a lleiniau cysgod nid yn unig yn ddarpariaeth cysgod gwych, maent hefyd yn cynnig cynefinoedd a choridorau i fywyd gwylt, cyfrannu at fioddiogelwch y fferm drwy blannu ar y ffin a chreu gwell diffiniad i ffiniau caeau. Hefyd mae gan goed rôl arbennig i arbed llygredd gwasgaredig, yn yr adnodd dŵr a bydd aml swyddogaeth coed yn gymorth i ffermwyr gydymffurfio â'r Rheoliadau Adnoddau Dŵr. Mae'n hanfodol bwysig ystyried sefydlu llain glustogi wrth ochr cyrsiau dŵr bydd yn amsugno a hidlo maethynnau a lleihau llygredd gwasgaredig, yn ogystal â diogelu'r lan rhag cael ei herydu neu ei difrodi wrth gynnig cynefinoedd natur.


Pwysig felly plannu'r goeden iawn yn y lle iawn am y rheswm iawn i gwrdd â gofynion amgylcheddol ond hefyd economaidd y fferm a chynyddu cynhyrchiant mewn achosion fel a ganlyn:

- Mae cynnydd mewn darpariaeth cysgod ar ffurf lleiniau cysgod yn gallu ymestyn y tymor tyfu o ganlyniad i aer a phridd cynhesach yn gynharach yn y gwanwyn a hwyrach yn yr hydref.
- Mae stoc cysgodol hefyd yn dangos cynnydd mewn cynhyrchiant cig a llaeth o ganlyniad i'r lleihad mewn egni sydd angen amynt i thermorheoli mewn tymereddau oerach sydd hefyd yn gallu arbed colledion yn ystod y tymor ŵyna.
- Yn ogystal, mae gan rhai rhywogaethau coed briodweddau gall helpu i leihau costau newidiol e.e. y gallu sydd gan y goeden wernen i osod nitrogen â'r sinc a chobalt sy'n bresennol mewn coed helyg i helpu i fynd i'r afael â diffygion mwynau mewn da byw.

Gall Cyswllt Ffermio gefnogi ffermwyr i reoli'r adnodd coetir yn weithredol trwy deilwra eu harferion rheoli – i ddarparu budd sylweddol i ansawdd eu cynnyrch, gyda'r bwriad o wella eu statws amgylcheddol ac economaidd tra hefyd fod o fudd i'r amgylchedd eang a chyfrannu at economi gylchol.

Mae'n hanfodol bwysig i leisio eich barn ac i gymryd rhan yng ngham nesaf y cyd-ddylunio. Ewch i wefan Llywodraeth Cymru i ddysgu mwy:

llyw.cymru/cynllun-ffermio-cynaliadwy-canllaw



Safle Ffocws: Fferm Ffrith, Treuddyn, Yr Wyddgrug

Swyddog Technegol: Debbie Handley

Teitl y Prosiect: Adeiladu profiad cyrchfan fferm o amgylch adnoddau presennol

Cyflwyniad i'r Prosiect:

Magwyd Ed Swan ar fferm ei deulu, fferm fynyddig draddodiadol ym mhentref Treuddyn, ger yr Wyddgrug, yng Ngogledd Cymru. Mae'r teulu Swan yn amaethu Fferm Ffrith ers 1980, ac maent yn cynhyrchu cig eidion a chig moch cartref i'w werthu yn eu siop fferm ar y safle.

Mae ganddynt tua 120 o wartheg biff ar y fferm: Henffordd, Aberdeen Angus, Gleision Prydeinig, Simmental, Charolais, Gwartheg Duon Cymreig, Limousin, Byrgorn a dros 100 o foch Cymreig pedigri, ac mae pob un ohonynt yn anifeiliaid maes. Mae ganddynt ieir dodwy hefyd i gyflenwi'r siop.

Tyfir cnydau â'r gwenith a haidd ar y fferm, yn ogystal â silwair, gwair, cêl a maip, i borthi'r da byw. Cynaeafir y cnydau rhwng Mehefin a Hydref, ac mae hynny'n cyflenwi'r holl borthiant sy'n ofynnol yn ystod y flwyddyn ddilynol.



Cae blodau haul Fferm Ffrith, 2021

Mae llwybr ar y fferm yn caniatáu i'r cyhoedd fynd o'i hamgylch. Mae'r llwybr yn cynnig golygfeydd godidog a chyfle i weld yr anifeiliaid yn pori yn eu caeau, y ffermwyr wrth eu gwaith, y gwahanol fathau o gnydau, a bywyd gwylt rhyfeddol. Mae'r prosiect yn bwriadu adeiladu ar y rhan hon o'r fferm, gan ddatblygu profiad cyrchfan fferm trwy dyfu blodau haul a phwmpenni; ehangu'r cyfleoedd i'r cyhoedd ymweld â'r fferm, gan sicrhau incwm ychwanegol; ymgysylltu mwy â'r gymuned leol, ac ymgorffori bioamrywiaeth yng ngweithgarwch beunyddiol y fferm.

Mae mentrau tyfu pwmpenni a blodau ar gyfer y farchnad 'casglu eich hun' wedi dod yn hynod o boblogaidd yn ystod y blynyddoedd diweddar, yn enwedig yn ystod y pandemig, wrth i bobl ddod yn awyddus i fwynhau profiadau a gweithgareddau yn yr awyr agored. Defnyddir y tir o amgylch siop y fferm, lle gall cwsmeriaid weld a chyrchu'r mannau 'casglu eich hun' yn rhwydd.

Amcanion y Prosiect:

Bydd y prosiect yn ystyried adnoddau presennol, gan ddefnyddio tir o amgylch y siop nad yw'n cael ei ddefnyddio ar hyn o bryd, ac yn cyd-fynd â gofynion llafur y fferm. I dyfu blodau haul a phwmpenni, mae angen eu rheoli'n ofalus i lwyddo i gynhyrchu a gwerthu'r cnwd yn ystod y cyfnod cynaeafu byr. Fodd bynnag, gellir rheoli'r cnydau yn rhwydd ynghyd gweithgareddau arferol presennol y fferm, ac yn yr achos hwn, bydd angen ychydig bach o lafur ychwanegol oherwydd bod y siop ar y safle.

Bydd y prosiect yn gwneud y canlynol:

- Archwilio'r dewis o fathau blodau haul a phwmpenni, gan ystyried y lliw a'r maint sy'n ofynnol ar gyfer busnes 'casglu eich hun'
- Clirio a datblygu mannau o amgylch y siop ar gyfer y busnes casglu eich pwmpenni a'ch blodau haul eich hun
- Canolbwyntio ar reoli chwyn a sicrhau'r cydbwysedd priodol o ran maetholion ar gyfer y cnydau, gan gofnodi unrhyw broblemau â chlefydau
- Ystyried sut i gynnwys rhagor o fioamrywiaeth yng ngweithgareddau amaethyddol presennol y fferm, e.e. annog rhagor o fywyd gwylt, defnyddio pryfed peillio, defnyddio llai o gemegau
- Ymgysylltu â'r cyhoedd a'r gymuned leol trwy ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol a defnyddio rhwydweithiau/cysylltiadau presennol megis ysgolion, grwpiau cymunedol a grwpiau sy'n ymwneud â'r cyhoedd
- Darparu addysg i'r cyhoedd am ffermio prif ffrwd a buddion anifeiliaid o ran ffrwythlondeb pridd ac agweddau cyfannol rheoli fferm

DANGOSYDDION PERFFORMIAD ALLWEDDOL:

Dichonoldeb ariannol yr holl fentrau – llwybr y fferm, pwmpenni, blodau haul



Ymgysylltu â'r cyhoedd/y gymuned




Mewnbynnau amser/llafur a chostau (nifer yr oriau a weithir, sut mae'n effeithio ar a/neu'n ategu gweithgareddau ffermio presennol, costau planhigion, hadau, cemegau, gwrtaith, offer ac ati) o'u cymharu ag incwm



Cynnydd yn arwynebedd y tir sy'n darparu cynefin addas i fioamrywiaeth



Am ragor o wybodaeth am y gwaith a gynhaliwyd ar safle ffocws Fferm Ffrith, ewch i llyw.cymru/cyswlltffermioeinffermydd



SAFLEOEDD DROS DRO MEWN CAEAU

Mae Rheoliadau Adnoddau Dŵr (Rheoli Llygredd Amaethyddol) (Cymru) 2021 wedi cyflwyno gofynion newydd ynghylch storio tail (gan gynnwys tail buarth) mewn caeau i leihau'r risg o lygredd.

Bydd yn rhaid i dail a gaiff ei storio'n barhaol yn yr un lle ateb y gofynion o ran storio tail organig a ddisgrifir yn y rheoliadau. Fodd bynnag, gall unrhyw dail organig solet (neu unrhyw ddeunydd gorwedd sydd wedi'i halogi â thail organig y gellir ei storio mewn tomen sy'n sefyll ar ei phen ei hun, ac sydd ddim yn gollwng hylif o'r deunydd) gael eu storio mewn safle dros dro mewn cae.

Mae gan safleoedd dros dro mewn caeau ofynion ychwanegol i leihau'r risg o lygredd.



Lleoliad

Ni ddylai safleoedd dros dro mewn caeau:

- Gael eu lleoli yn yr un lle am fwy na 12 mis yn olynol
- Cael eu lleoli yn yr un lleoliad ag un a gafodd ei adeiladu yn flaenorol yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf
- Cael eu lleoli mewn cae sy'n debygol o ddod yn ddyfrlawn neu ble mae llifogydd yn debygol o ddigwydd
- Bod o fewn 50 metr o ddyfrdwl, ffynnon neu darddell, neu o fewn 10 metr oddi wrth ddŵr wyneb neu ddraen tir (ac eithrio pibell anhydraidd wedi'i selio)
- Bod o fewn 30 metr o gwrs dŵr ar dir y mae'r map risgiau yn nodi fod ganddo oledf sy'n fwy na 12°

Mesurau i atal llygredd rhag trwytholchi

Ni chaniateir clirio uwchbridd o'r tir y bwriedir adeiladu safle dros dro mewn cae arno. Bydd hyn yn helpu i gadw unrhyw faetholion sy'n trwytholchi o'r domen.

Dylai arwynebedd safle dros dro mewn cae fod mor fychan ag sy'n rhesymol ymarferol, oherwydd bydd hynny'n helpu i leihau effaith trwytholchi dŵr glaw.

Gofynion ychwanegol yn achos tail dofednod

Mae'n rhaid defnyddio deunydd anhydraidd i orchuddio tail dofednod solet sydd heb ddeunydd gorwedd wedi'i gymysgu ynddo, ac sy'n cael ei storio mewn safle dros dro mewn cae. Bydd tail dofednod nad yw'n cynnwys deunydd gorwedd yn dueddol o gwmpo os caniateir i law neu ddŵr ddod i gysylltiad â'r domen, a byddai hynny'n ei wneud yn anaddas i'w gadw mewn tomennydd dros dro mewn caeau. Mae gorchuddio tail dofednod â deunydd anhydraidd yn ddull o liniaru rhag y digwyddiadau hyn.

Mae Canllawiau Manwl i Ffermwyr a Rheolwyr Tir a dogfen Cwestiynau Cyffredin ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru: llyw.cymru/rheolitir

Cymorth Cyswllt Ffermio

Mae Cyswllt Ffermio yn cynnig ystod o ddulliau a all eich cynorthwyo â'r gofynion rheoleiddio. Mae'r rhain yn cynnwys cymorthfeydd un ac un, clinigau ar ffermydd, modiwlau e-ddysgu a digwyddiadau. I gael rhagor o wybodaeth, trowch at wefan Cyswllt Ffermio: llyw.cymru/cyswlltffermio

Llinell Gymorth y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol

Mae Llinell Gymorth benodedig ynghylch y Rheoliadau Rheoli Llygredd Amaethyddol, sy'n cael ei rhedeg gan ADAS, ar gael i gynorthwyo ffermwyr a rheolwyr tir â gofynion y Rheoliadau. Gallwch gysylltu â'r llinell gymorth ar **01974 847000**.


A yw e-ddysgu yn briodol i chi?

- diddordeb mewn datblygiad personol a/neu ddatblygu busnes?
- amser yn brin, ond yn chwilio am ganlyniadau?

Bydd pynciau e-ddysgu eang Cyswllt Ffermio yn sicrhau y cewch chi'r wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf y mae arnoch eu hangen.

Mae ein pynciau e-ddysgu AM DDIM i bob unigolyn sydd wedi'i gofrestru, ac yn gyffredinol, gellir eu categoreiddio o dan benawdau 'tir', 'da byw' a 'busnes', gan gynnwys modiwlau ynghylch:

- Iechyd anifeiliaid a hwsmonaeth (bîff, llaeth, defaid, dofednod, moch ac ati)
- Rheoli tir glas, cynefinoedd a choetiroedd
- Rheoli busnesau, arian a phobl
- Pynciau amaethyddiaeth a garddwriaeth gynaliadwy, yn cynnwys systemau organig
- Y newid yn yr hinsawdd, lleihau carbon ac ynni amgen
- Pynciau yn ymwneud ag arallgyfeirio



Trowch at llyw.cymru/cyswlltffermio i weld y rhestr lawn sy'n cynnwys bron iawn 100 o fodiwlau e-ddysgu.

- ✓ Modiwlau ar-lein byr (mae'r mwyafrif yn para tua 20-30 munud) y gallwch ymweld â hwy unrhyw bryd
- ✓ Dysgwch sut i fynd i'r afael â thasgau cyffredin yn fwy effeithlon, yn fwy cynaliadwy ac yn fwy proffidiol
- ✓ Cewch dystysgrif 'modiwl wedi'i gwblhau' gan Cyswllt Ffermio
- ✓ Gwiriwch eich cofnod 'Storfa Sgiliau' ar-lein, a fydd yn cynnwys manylion eich holl gyflawniadau Cyswllt Ffermio

Cychwynnwch ar eich taith e-ddysgu

Cyn i chi allu cwblhau modiwl e-ddysgu, mae angen i chi:

- Gofrestru gyda Cyswllt Ffermio gan ddefnyddio eich cyfeiriad e-bost unigol, a ddylai fod yn unigryw i chi. I gofrestru, ffoniwch **Ganolfan Gysylltu Cyswllt Ffermio** ar **08456 000 813** neu trowch at llyw.cymru/cyswlltffermio
- Mewngofnodi i'ch cyfrif BOSS. Os oes angen rhagor o wybodaeth neu gymorth i gyrchu BOSS, ffoniwch eich swyddog datblygu lleol Cyswllt Ffermio.

"Roeddwn yn gallu astudio yn fy amser fy hun, gan ddewis o blith ystod enfawr o bynciau rhyngweithiol cysylltiedig ag amaeth, gan roi sgiliau a gwybodaeth newydd i mi y byddaf yn eu defnyddio'n feunyddiol yn fy ngwaith."

"Byddai'r cwis byr ar ddiwedd pob modiwl yn rhoi sicrwydd i mi fy mod i wedi dysgu popeth gofynnol."



KIM BRICKELL
Rheolwr, Folly Farm, Dinbych y Pysgod

"Fe wnes i roi cynnig ar e-ddysgu i sicrhau y byddai ein llo i yn cael dechrau teg mewn bywyd."

"Rhwyng pawb yn y teulu, rydym wedi mynd i'r afael â TGCh, rheoli busnesau, cyllid a ffurflenni TAW, yn ogystal ag amrywiaeth eang o bynciau iechyd anifeiliaid, iechyd y pridd a rheoli tir glas."



EMMA ROBERTS A'R TEULU
Ffermwyr llaeth, Clunderwen



A ydych chi'n chwilio am y ffordd gyflymaf i'ch adnewyddu eich hun, dull hollol newydd?

Defnyddiwch yr ap lluniau ar eich ffôn symudol i hofran dros y cod QR hwn, a bydd eich taith e-ddysgu newydd ddechrau!

Gall mentora arbed amser ac arian i chi!

“Ni waeth pa mor hyderus ydych chi yn eich gallu eich hun, weithiau, bydd dulliau gwell neu wahanol o wneud pethau.”

Dyma eiriau William Williams, sy’n cadw tua 500 o famogiaid Easy Care ar y fferm 200 erw ger Bangor lle mae ei deulu’n denantiaid ers cenedlaethau lawer. Ddwy flynedd yn ôl, fe wnaeth William droi at raglen mentora Cyswllt Ffermio ar ôl sylweddoli nad ei system ‘stocio sefydlog’ draddodiadol oedd y dull mwyaf effeithlon na phroffidiol o redeg y fferm. Dewisodd Keith Williams, ffermwr bŵff a defaid adnabyddus o ganolbarth Cymru, i fod yn fentor iddo. Mae Keith yn un o ysgolorion Nuffield a bu’n Ffermwr Defaid y Flwyddyn Farmers Weekly ar un adeg, ac mae cael ei fentora ganddo wedi helpu William i weddnewid busnes ei fferm.

MENTORA – SUT MAE’N GWEITHIO

Fe wnaeth William a Keith ymweld â ffermydd y naill a’r llall, a phan wnaeth y pandemig gyfyngu ar gyfarfodydd wyneb yn wyneb, fe wnaeth eu deialog barhau ar-lein a dros y ffôn.

Cafodd William ei fentora gan Keith ynghylch y canlynol:

- Rheoli tir glas a mesur glaswellt
- Gwella perfformiad y ddiadell, oedd yn cael ei rheoli’n flaenorol gan ddefnyddio system stocio sefydlog, nad oedd yn cyflawni’r lefelau uchaf o ran perfformiad
- Lleihau costau gwrtaith

Roedd argymhellion Keith fel mentor yn cynnwys:

- Sicrhau y caiff y tir orffwys yn hir yn y gaeaf; fe wnaeth hynny leihau sathru trwy ddod â’r ddiadell gyfan i mewn
- Buddsoddi mewn ffensys trydan a chynllunio i rannu caeau yn gelloedd at ddibenion pori cylchdro dwys
- Cynghori ynghylch lleiniau tir i sicrhau patrymau pori gwastad
- Targedu’r defnydd o wrtaith i leihau amser a chostau chwalu



William Williams

Y canlyniadau i William:

“Rydym yn isrannu’r tir, ar sail awgrymiadau Keith, er mwyn i siapiau’r lleiniau tir sicrhau patrymau pori gwastad, ac rydym wedi osgoi gwneud camgymeriadau costus.

“Mae’r system celloedd wedi arwain at arbedion enfawr ar gostau gwrtaith. Bellach, rydym yn chwalu tua hanner y cyfanswm blaenorol.

“Pan oedd y mamogiaid yn barod i wyna allan ym mis Ebrill, roedd y glaswellt mewn cyflwr gwych.

“Roedd hi’n fuddiol iawn cael cyfle i sgwrsio’n uniongyrchol â ffermwr defaid profiadol sydd wedi gwneud y gorau o’i dir ei hun trwy weithredu system pori cylchdro dwys debyg.

“Mae cael Keith yn fentor wedi dangos y gallwn ni ddysgu mwy bob amser; ni waeth pa mor hyderus ydym ni yn ein galluoedd ein hunain.



Gair i gloi gan Keith:

“Er bod William wedi defnyddio ei oriau mentora, mae ganddo lasbrint ar gyfer y dyfodol erbyn hyn.

“Rwyf wrth fy modd yn mentora, ac mae William yn gwybod y byddaf ar gael bob amser i ateb y ffôn ac yn fodlon ei gynorthwyo pan fydd arno angen cymorth gennyf.”

Keith Williams

Bellach, mae **dros 100 o fentoriaid Cyswllt Ffermio** ar gael ledled Cymru. Maent yn cynnig gwasanaeth mentora ynghylch ystod helaeth o sectorau ac arbenigeddau. Mae’r rhain yn cynnwys cymorth â TGCh (sy’n gallu cynnwys cynorthwyo ffermwyr i ymdrin yn ddigidol â’u trethi, cadw cofnodion a llenwi ffurflenni ar-lein, a rheoli busnesau ac arian), cyfryngau cymdeithasol a marchnata.

Mae pynciau megis prosesu bwyd a bwtsiera, rhedeg cŵn defaid, cneifio, ffermio atgynhyrchiol, bioleg y pridd a dylunio mewnol ar gyfer prosiectau arallgyfeirio newydd ym maes twristiaeth yn ychydig o’r meysydd mentora llai ‘nodweddiadol’ sydd ar gael, ynghyd â phynciau yn ymwneud â rheoli iechyd anifeiliaid, pridd, tir glas a choetiroedd.

Mae’r gwasanaeth yn darparu hyd at **15 awr o gymorth un ac un sy’n cael ei ariannu’n llawn**, ac mae ar gael i bob unigolyn sydd wedi’i gofrestru â Cyswllt Ffermio. I weld y cyfeiriadur mentoriaid ar-lein ac ymgeisio, trowch at **llyw.cymru/cyswlltffermio**



Negeseuon Aliweddol: Cerbydau Sy'n Symud

Peidiwch byth â mynd at neu gerdded tu ôl i gerbyd sy'n symud. Os oes rhaid i chi fynd ato, tynnwch sylw'r gyrrwr yn gyntaf (pan fydd yn ddiogel) a'i gael i stopio.

- ✓ Dylai gwaith gael ei gynllunio i gadw pobl draw oddi wrth gerbydau sy'n symud
- ✓ Dylai llwybrau cerbydau gadw oddi wrth lwybrau cerddwyr/drysau/giatiau/allanfeydd ac ati
- ✓ Rhaid i yrwyr gael hyfforddiant
- ✓ Gwnewch yn siŵr bod drychau'n cael eu gosod, eu haddasu'n briodol a'u glanhau



**PARTNERIAETH
DIOGELWCH
FFERM CYMRU**
/////////////////
**WALES
FARM SAFETY
PARTNERSHIP**